



Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
11 Ebrill 2019, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin

Cyfarfod Rhif 426

Presennol:

Aelodau Anweithredol y Bwrdd:

| | |
|--------------------|-------------------|
| Huw Jones | (Cadeirydd) |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol
y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|-------------|----------------------------|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

Hefyd yn bresennol:

Staff S4C:

| | |
|--------------------|-------------------------------------|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Phil Williams | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Carys Evans | (Pennaeth Dadansoddi) – eitem 8 |
| Huw Ymchwil | (Uwch Swyddog Dadansoddi) – eitem 8 |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

COFNODION

MATERION SEFYDLOG:

- 1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C yr Egin.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.
- 2. Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 425 a gynhaliwyd ar Fawrth 21ain, 2019**
Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 425 a gynhaliwyd ar Fawrth 21ain .

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.
- 3. Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 425**

4 - Strategaeth Ail-ddarllodiadau a Strategaeth Gwobrau Rhyngwladol. Penderfynwyd parhau i gyflwyno'r Strategaeth Ail-ddarllodiadau ym mis Mai fel rhan o'r strategaeth drosgynnol, ac i gyflwyno'r Strategaeth Gwobrau Rhyngwladol ym mis Mehefin.
- 4. Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Nodwyd bod y Gofrestr wedi ei diweddarau'n sylweddol yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyntiau Gweithredu a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror. Bydd rhagor o bwyntiau'n cael eu dileu o'r gofrestr yn dilyn y cyfarfod hwn.

Nodwyd yr angen i sicrhau dyddiad cyflawni ar gyfer pob pwynt gweithredu, ac awgrymwyd y dylid cytuno ar ddyddiad cyflawni wrth gytuno ar y pwynt gweithredu o hyn allan. Ar gyfer pwyntiau sydd eisoes ar y gofrestr, gofynnwyd i berchnogion y pwyntiau gynnig dyddiadau ymarferol ar gyfer eu cyflawni.

Cyfeiriwyd yn benodol at y pwyntiau gweithredu canlynol.

Ap Tywydd

Nodwyd nad oedd y 'lleoliad' yn dal i weithio o fewn yr Ap. Penderfynwyd y byddai OE yn ymchwilio i'r mater er mwyn ei ddatrys.

Holwyd a oedd cyfleoedd o fewn yr Ap Tywydd i hyrwyddo rhaglenni? Penderfynwyd y byddai swyddogion yn ystyried a oedd cyfleoedd ar gael a phriodoldeb hyrwyddo o fewn Ap lle nad oes hyrwyddo neu hysbysebion ar hyn o bryd.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Penodi Cadeirydd

Roedd DCMS bellach wedi cymeradwyo'r swydd ddisgrifiad a gyflwynwyd gan S4C ym mis hydref, ac roedd bwriad i hysbysebu'r swydd wedi ei nodi yng nghylchlythyr diweddaraf yr adran Penodiadau Cyhoeddus.

Esboniwyd bod swyddogion DCMS yn gobeithio cael sêl bendith i hysbysebu'r swydd erbyn diwedd yr wythnos hon, gan anelu i gael cadeirydd newydd erbyn yr hydref.

Nodwyd fod DCMS yn parhau'n awyddus i benodi dau aelod ychwanegol i'r Bwrdd, ond nad oedd modd cadarnhau manylion neu amserlen hyn ar hyn o bryd o ganlyniad i alwadau eraill ar amser swyddogion penodiadau cyhoeddus.

Awgrymodd OE y dylid cadarnhau yn y swydd ddisgrifiad y bydd y Cadeirydd newydd yn parhau i gadeirio Bwrdd S4C yn dilyn unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil newid y ddeddfwriaeth berthnasol.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Diweddariad Hanner Blwyddyn Gweithgareddau Masnachol S4C

[Crynodeb: Cyflwynodd OE Ddiweddariad Hanner Blwyddyn Gweithgareddau Masnachol S4C]

Panel Buddsoddi swyddogion

Nododd OE fod Panel Buddsoddi swyddogion S4C yn cyfarfod yn fisol i adolygu'r buddsoddiadau ac i ystyried ceisiadau am fuddsoddiad.

Statws TAW S4C

Cyflwynwyd diweddariad parthed trafodaethau am statws TAW S4C.

Materion Gwleidyddol

Cyfeiriodd OE at gyfarfodydd yr oedd wedi eu cynnal gyda gwleidyddion a swyddogion yn Llundain yn ystod y mis.

7. **Adroddiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd y Pwyllgorau a gynhaliwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 10fed Ebrill 2019

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, a nodwyd y bydd cofnodion drafft y Pwyllgor yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau'n fuan yn ôl yr arfer.

Cafwyd cyflwyniad parthed darpariaeth S4C i blant gan SWR, gan gynnwys asesiad o berfformiad y strategaeth a chynlluniau ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth o fewn pob grŵp oedran.

Roedd gwylio plant i deledu'n gyffredinol yn lleihau'n gyflym wrth iddynt fudo ynghynt nag unrhyw grŵp arall i lwyfannau a gwasanaethau newydd. Roedd y patrymau hyn yn effeithio ar bob darlledwr sy'n darparu cynnwys ar gyfer plant.

Cyflwynwyd cynlluniau er mwyn datblygu'r arlwy ar gyfer plant hyn, ac addasu'r grwpiau oedran penodol. Roedd y cynlluniau'n cynnwys buddsoddi mewn safon rhaglenni yn hytrach na chynyddu oriau, ac yn cynnwys buddsoddi mewn nifer o gyfresi animeiddiedig. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r bwriad a'r cyfeiriad cyffredinol, ond nodwyd rhai cwestiynau gan gynnwys y gallu i gynnal darpariaeth o safon uchel i nifer cynyddol o grwpiau oedran a'r cydbwysedd priodol rhwng rhaglenni cyfoes gyda chyflwynwyr ac animeiddiadau.

Roedd y Pwyllgor wedi trafod manteision ac anfanteision parhau i ddarparu rhaglenni i blant ar y gwasanaeth teledu neu eu darparu ar lwyfannau ar-lein yn unig, ond nodwyd nad oedd rhesymau cryf dros beidio darlledu'n lliniol ar hyn o bryd, gan fod gwyllo plant yn parhau i gyfrannu at gyrhaeddiad, ac yn cynyddu gwerth am arian y buddsoddiad a wneir mewn cynnwys i blant.

Holwyd sut fyddai modd ymateb i gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r ddarpariaeth ar deledu ac ar-lein, gan ragdybio na fyddai incwm S4C yn cynyddu yn y byr dymor, ac esboniwyd y byddai angen pwysu a mesur blaenoriaethau o fewn y Strategaeth Cynnwys ddiwygiedig.

Nododd SL awydd i weld S4C a'r Urdd yn cydweithio'n agosach er mwyn manteisio ar aelodaeth a chysylltiadau eang yr Urdd o fewn ysgolion ledled Cymru.

Holwyd beth oedd rôl Rownd a Rownd o ran pontio darpariaeth pobl ifanc a'r arlwy ddrama. Esboniwyd nad oedd Rownd a Rownd fel y mae yn rhan o'r Strategaeth Pobl Ifanc, ond bod ystyriaeth yn cael ei roi i'w rôl o fewn yr arlwy ddrama a'r arlwy ar gyfer pobl ifanc.

Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10fed Ebrill 2019

Cyflwynodd HHE adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, a nodwyd y bydd cofnodion drafft y Pwyllgor yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau'n fuan yn ôl yr arfer.

Roedd HHE wedi ysgrifennu at Shirley Garrod, cadeirydd newydd Pwyllgor Archwilio'r BBC, ac roedd bwriad i drefnu cyfarfod yn fuan.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gareth Powell a Gareth Phillips, cynrychiolwyr tîm prosiect Sgwâr Canolog y BBC, a chafwyd cyfle i graffu'r prosiect a thrafod disgwyliadau gwybodaeth S4C. Roedd cynrychiolwyr y BBC wedi derbyn gwahoddiad i drafod y prosiect gyda'r Pwyllgor fel rhan o raglen y Pwyllgor o wahodd perchnogion prif risgiau i drafod eu meysydd yn agored gyda'r aelodau.

Esboniodd HHE ei fod yn awyddus i'r Pwyllgor gael gwell dealltwriaeth o risgiau'r Prosiect Cydleoli ynghyd â chyfle i holi swyddogion y BBC yn uniongyrchol. Roedd hefyd wedi bod yn gyfle i gyflwyno'n glir beth yw disgwyliadau'r Bwrdd o ran lefel y wybodaeth sy'n cael ei darparu i S4C mewn perthynas â'r prosiect Cydleoli.

Nodwyd fod y Pwyllgor wedi penderfynu darparu cofnod o'r drafodaeth i'r BBC, ac y byddai OE yn ysgrifennu at Rhodri Talfan Davies er mwyn cyfleu'r pwyntiau gweithredu a gytunwyd gyda chynrychiolwyr y BBC.

8. Cyflwyniad Dadansoddi Misol a Chwarter 4 2018/19.

Cyflwynodd CE yr Adroddiad Dadansoddi Misol ar gyfer Chwefror, gan gynnwys adroddiad ar berfformiad Chwarter 4 a blwyddyn 2018/19.

9. Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

10. Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 4 2018/19

Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 4 2018/19, gan nodi fod fformat newydd i'r adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar brif flaenoriaethau hyrwyddo rhaglenni'r chwarter, yn hytrach na'r holl weithgareddau hyrwyddo a chyfathrebu.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r blaenoriaethau, y gweithgareddau a'u cost ac yna'n ceisio'u gwerthuso. Roedd prif ymgyrchoedd y cyfnod yn cynnwys 25 Awr, Syrjeri a Siambr.

Nododd y Bwrdd werthfawrogiad i fformat newydd yr adroddiad, gan nodi ei fod yn cyflwyno'r gweithgareddau a'u heffaith yn glir.

Cyfeiriwyd at gost cyrraedd cynulleidfa'r cyfresi a nodwyd yn yr adroddiad. Nodwyd nad oedd yn bosibl i asesu faint o wylwyr sy'n cael eu denu o ganlyniad i'r gwaith hyrwyddo a faint o wylwyr fyddai wedi gwyllo beth bynnag.

11. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

12. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith drafft y Bwrdd ar gyfer 2019 er gwybodaeth.

Penderfynwyd addasu'r Rhaglen waith er mwyn cyflwyno'r Adroddiadau Cynnwys a Dadansoddi gyda'r Adroddiad Cyfathrebu yr un mis a'i gilydd o chwarter cyntaf 2019/20.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod y Bwrdd a chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yng Nghaerdydd ym mis Mai er mwyn i Grant Thornton fynychu'r cyfarfod. Nodwyd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gorfod gohirio ei gyfarfod gyda'r Bwrdd yn yr Egin ym mis Mai oherwydd galwadau eraill.

13. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.